**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Ebrill 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Emrys Wynne – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Brian Jones – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | CEISIADAU AR Y RHESTR FER AR GYFER CYLLID Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>(a) *cadarnhau eu bod wedi deall y broses ymgeisio a llunio rhestr fer ac yn cymeradwyo bod y gweithdrefnau hynny'n deg ac agored.*<br><br>(b) *cytuno i ariannu'r prosiectau a roddwyd ar y rhestr fer gan y Grŵp Partneriaeth Craidd (Atodiad C yr adroddiad) a*<br><br>(c) *rhoi pwerau dirprwyol i'r Arweinydd i wneud penderfyniadau dilynol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi. Efallai y bydd angen y penderfyniadau hynny pe bai'r amgylchiadau a nodwyd ym mharagraffau 4.9, 4.10 a 4.11 yr adroddiad yn digwydd.* |
| **6** | GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWEITHWYR ASIANTAETH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo dechrau'r broses dendro i ddarparu staff asiantaeth drwy wasanaeth a reolir yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau y Cyngor (5.5.4(iii)), a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth AD i ddyfarnu'r contract i'r darparwr llwyddiannus mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151 ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol.* |
| **7** | EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU - DATGAN DIDDORDEB | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cais ar ran y Cyngor i ddatgan diddordeb mewn cynnig llety i Eisteddfod Genedlaethol Cymru.* |
| **8** | Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/25 I 2026/27 | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r rhagamcanion ariannol diwygiedig am y cyfnod o 3 blynedd 2024/25 i 2026/27 ynghyd â'r strategaeth gyllidebol arfaethedig ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2024/25*. |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |